# Atodiad 2: Dosbarthu gwartheg o ran glendid

Gellir defnyddio'r ffotograffau hyn i asesu glendid gwartheg.



Ystyrir bod anifeiliaid sych, sy'n ymddangos yn debyg i'r enghreifftiau a nodir isod, neu'n lanach, yn ddigon glân i fynd ymlaen i gael eu lladd.



Os bydd anifeiliaid yn fwy budr na'r enghreifftiau isod, yn enwedig os ydynt yn wlyb, mae'n debygol y bydd angen rhoi sylw ychwanegol iddynt yn y lladd-dy. Os bydd rhaid i weithredwr y lladd-dy ddal anifeiliaid cyn eu lladd neu arafu'r llinell neu roi mesurau ychwanegol eraill ar waith, bydd hynny'n arwain at gostau ychwanegol.





